



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD5010C

**Cylch 2: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut
a pham ydw i'n addysgu?**

**BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 5

YR ATHROFA

2023-2024

1. Manylion Cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

- Dr Sioned V Hughes, Arweinydd y Modwl s.v.hughes@uwtsd.ac.uk
- Dr Julia Holloway, Dirprwy y Modwl j.holloway@uwtsd.ac.uk

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu pob sesiwn
- Paratoi a chyfrannu'n llawn mewn sesiynau
- Ymddwyn yn gyfrifol a phroffesiynol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn

Darllenwch y Rheoliadau i Fyfyrwyr y Brifysgol os gwelwch yn dda.

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCANION

- Cael athrawon dan hyfforddiant i ymwneud â datblygu'r nodwedd o fod yn ymchwilydd medrus trwy gymhwyso, gwerthuso a rhannu ystod o offer ymchwil sy'n gallu cynhyrchu tystiolaeth o arfer proffesiynol.
- Deall gwahanol bersbectifau, dulliau a fframweithiau damcaniaethol o fewn ymchwil, a datblygu safbwynt beirniadol mewn perthynas â'r persbectifau hyn.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- ddatblygu gwybodaeth a sgiliau cynyddol wrth ddewis a defnyddio ystod o offer ymchwil i gynhyrchu data a thystiolaeth a all lywio arfer personol;
- cyfiawnhau cymhwyso offer ymchwil yn yr ystafell ddosbarth i gael dirnadaeth o agwedd ar ddysgu ac addysgu;
- datblygu'r nodwedd o fod yn ymchwilydd medrus trwy ddadansoddi a gwerthuso data'n ofalus a chysylltu hyn ag arfer personol;
- dangos dealltwriaeth gynyddol fod addysg yn faes dadleuol ac y gall gwahanol bersbectifau gydfodoli mewn ymchwil;
- sicrhau nodweddion bod yn ymchwilydd moesegol trwy adnabod arfer moesegol yn amgylchedd dysgu cymhleth yr ystafell ddosbarth.

Perthynas â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru:

Datblygu plant a phobl ifanc yn:	Perthynas hynny â'r modwl hwn: Bydd darpar athrawon yn gallu:
Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Deall y berthynas rhwng ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dewisiadau addysgegol a wneir yn y dosbarth i godi safonau.
Gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Datblygu arddull addysgu bersonol sydd wedi'i seilio ar ymchwil ac sy'n ysbrydoli dysgwyr.
Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol o ran deall cymhlethdodau arfer moesegol a dechrau gwneud dewisiadau annibynnol.
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Deall tystiolaeth ymchwil yn ymwneud ag iechyd a lles a chymhwyso hynny er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr

4. Cyflwyniad i'r modwl

Mae bod â thystiolaeth ymchwil, gwybodaeth o ymchwil ac yn barod i ymchwilio yn un o bedair egwyddor Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Athrofa (PDPA) ac, felly, mae datblygu sgiliau ymchwil yn ganolog i raglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Mae nodi datblygiad sgiliau ymchwil a'i ddilyniant trwy'r rhaglenni AGA wedi'i fapio ar strwythur modiwlaid y rhaglen.

Yn rhyngwladol, mae amgylcheddau ysgol sy'n seiliedig ar ymholiadau (neu'n 'gyfoethog o ymchwil') yn ddilysnod o systemau addysg sy'n perfformio'n uchel.

Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i athrawon ac addysgwyr athrawon ymgysylltu:

- **gydag** ymchwil ac ymholi - mae hyn yn golygu caffael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf mewn ymarfer addysgol;
- **mewn** ymarfer sy'n canolbwyntio ar ymholiadau - mae hyn yn golygu bod â'r gallu, y cymhelliant, yr hyder a'r cyfle i ymgymryd ag ymchwil yn yr ystafell ddosbarth.

Yn ogystal, mae ymchwil wedi'i nodi'n glir yn y Safonau Proffesiynol diwygiedig ar gyfer Athrawon.

“Mae ymgysylltiad strwythuredig mewn cymuned ymchwil weithredol a thystiolaeth o ymarfer yn seiliedig ar ganfyddiadau darllen ac ymchwil ehangach ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol” (LIC, 2017a¹).

Bydd gofyn i athrawon ddangos sut maen nhw'n cwrdd â'r safon hon trwy gydol eu gyrfaedd. Mae Llywodraeth Cymru yn dyheu am i'r proffesiwn addysgu fod yn “ymgysylltu ag ymchwil, yn wybodus ac yn dysgu o ragoriaeth” (LIC, 2017b). Bydd Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu profiadau dysgu ystyrlon i'w disgyblion. Noda Donaldson (2015, t.71) bod addysgeg gadarn yn gofyn am “...athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth gadarn o ‘pam’ a ‘sut’ mae addysgu yn ogystal â’r ‘beth’.”

Mae gwaith Orchard and Winch (2015)² wedi'i addasu a'i drefnu yn bedwar ymagwedd (disposition) ymchwil: Gweler Tabl 1 isod. Mae'r ymagweddau ymchwil: bod yn sgeptigol,

¹ Llywodraeth Cymru (2017a) Safonau Proffesiynol ar gyfer Athrawon ac Arweinyddiaeth. Caerdydd: LIC. <https://hwb.gov.wales/mae-gwybodaeth-dysgu-cymru-wedi-symud/?docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-en.pdf>

bod yn foesegol, bod yn ymchwilydd medrus a bod yn rhan o gymuned ymholi yn hanfodol i ddatblygiad yr athro dan hyfforddiant.

Yn y modwl hwn, byddwch yn cael cyfle i ddylunio, cymhwyso a gwerthuso ystod o ddulliau ymchwilio, yn cynnwys arsylwi, cyfweiliadau ac holiaduron, tra'n datblygu eich dealltwriaeth o bwysigrwydd arfer moesegol.

Tabl 1: YMAGWEDDAU YMCHWIL

Nodwedd	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau.
<i>Bod yn sgeptigol</i>	Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol; • bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
<i>Bod yn foesegol</i>	Deall sylfaen foesegol ymholiad mewn gweithle cymhleth; • gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; • deall safleoliadaeth/ymagweddu (<i>positionality</i>) o fewn ymchwil; • adnabod eu credoau a'u tybiaethau eu hunain am y byd.
<i>Bod yn ymchwilydd medrus</i>	Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham; ▪ deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; ▪ deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; ▪ deall dyluniadau pragmatig. Deall sut i lunio dadl yn seiliedig ar dystiolaeth a chyfiawnhad mewn ymchwil addysgol; ▪ defnyddio sgiliau darllen beirniadol; ▪ cymryd ymagwedd sgeptigol at 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol raddfa'r gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio o blaid damcaniaethau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu; ▪ cymryd ymagwedd sgeptigol at 'arloesedd' (polisi ac arfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eu hystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd; ▪ bod yn glir ynglŷn â'r hyn a fwriedir a pham; ▪ diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
<i>Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi</i>	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr sy'n ymholi: ▪ gwybod pa un ai i rannu deilliannau ymholiad dosbarth, pryd a sut; ▪ cyfrannu'n rhagweithiol i ystod o gynulleidfaoedd; ▪ mynd i'r afael yn weithredol â'r ymholiad a chanfyddiadau pobl eraill.

² Orchard J. & Winch C. (2015) *Philosophical Perspectives on Education Policy. What training do teachers need? Why theory is necessary to good teaching.* IMPACT no.22

5. Crynodeb o'r modwl

Bod yn Foesegol	
Bod yn Ymchwilydd Medrus	
Bod yn Sgeptigol	
Bod yn rhan o Broffeiswn Ymholgar	
DIWRNOD YMCHWIL	

Symbolau ar gyfer y cyflwyno

Symbol	Ystyr
	Dysgu Cydamserol (synchronous learning) – bydd gofyn i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein ar amser penodol fel rhan o'r ddarpariaeth.
	Dysgu Anghydamserol (asynchronous learning) – ni fydd angen i chi gymryd rhan mewn gweithgaredd ar amser penodol, ond bydd gofyn i chi weithio'n annibynnol trwy dasgau hanfodol.
	Tasgau Cyfeiriedig – tasgau a osodwyd yn ystod neu ar ddiwedd sesiynau y bydd disgwyl i chi eu cyflawni'n annibynnol. Bydd y rhain yn cefnogi'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc ac yn cael eu hasesu'n ffurfiannol mewn sesiynau dilynol.
	Sesiynau Wyneb-yn-Wyneb - sesiynau byw ar y campws yn cael eu harwain gan diwtoriaid; tasgau cyfeiriedig, a thrafodaethau grŵp yn cael eu harwain gan diwtor neu gyfoedion.

D.S. Gall trefn y sesiynau hyn newid yn unol ag amgylchiadau ac fe fydd y themâu a drafodir yn gorgyffwrdd. Cynhelir pob sesiwn wyneb yn wyneb ar y campws.

Dyddiad	Cynnwys	Amser
07.11.23	Cyflwyniad byr i nodau'r modiwl cyn PAP2 Creu rhestr o dasgau i'w cyflawni yn ystod PAP2 (h.y. adnbaod testunau ymchwil posibl)	9-11
09.01.24 9-11yb	Sesiwn 1: Cyflwyniad i'r modiwl a'r fanyleb asesu - Ail-ymweld â'r Ymagweddau Ymchwil - Archwilio ac adnabod themâu ymchwil posibl mewn cyd-destun addysgol a dyluniad ymchwil effeithiol. Sesiwn 2: Cyflwyniad i Adolygiad Llenyddiaeth – darllen beirniadol	9-11 2-4
11.01.24.	Sesiwn 3: Dull/Ymagwedd Mosaig - Cyflwyniad i ddylunio ymchwil - Defnyddio'r Dull Mosaig i glywed lleisiau a phrofiadau disgyblion Sesiwn 4: Cyflwyniad i 'cyfweliadau' fel offeryn ymchwil - Gwerthuso'n feirniadol cryfderau a chyfyngiadau cyfweliad fel offeryn ymchwil Sesiwn 5: Cyflwyniad i 'holiaduron' fel offeryn ymchwil - Gwerthuso'n feirniadol cryfderau a chyfyngiadau holiadur fel offeryn ymchwil	9-11 11-1
16.01.24	Sesiwn 6: Dylunio ymholiad ymchwil ar raddfa fechan - Gan ddefnyddio enghreifftiau o gwestiynau ymchwil, mewn grwpiau, datblygwch ffyrdd o ddefnyddio holiadur a'r Dull Mosaig (cyfweliad) i gynhyrchu data i ateb y cwestiwn ymchwil. Sesiwn 7: Cymhwyso'r broses o ddylunio ymholiad - Mewn parau, datblygwch eich enghreifftiau o gwestiwn ymchwil a sut y bydd holiaduron a'r dull Mosaig yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r cwestiwn.	9-11 2-4
18.01.24.	Sesiwn 8: Creu eich Cwestiwn Ymchwil/Dylunio Offer ymchwil. - Defnyddio adborth i fireinio eich cwestiwn ymchwil a'r offer ymchwil (cwestiynau holiadur a chyfweliad) Sesiwn 9: Bod yn ymarferydd moesegol - Ail-ymweld â chaniatâd a chydysniad cyfranogwyr; cyfrinachedd; anhysbysrwydd; rheoli data. Sesiwn 10: Cyflwyniad i Ffurflen Foeseg y Brifysgol - Ystyried cydsyniad a chaniatad ar gyfer eich prosiect ymchwil – Diwrnod Ymchwil Cwblhau a chyflwyno'r ffurflen foeseg erbyn 5yp ** 18.01.24	9-11 11-1 2-4
23.01.24	Sesiwn 11 a 12: Paratoi ar gyfer Diwrnod Ymchwil - Mireinio a chwblhau'r cwestiynau holiadur/cyfweliad - Cwblhau'r taflenni caniatâd cyfranogwyr - Cyflwyno eich cais ymchwil mewn grwpiau	9-11 2-4
24.01.24	DIWRNOD YMCHWIL- Ysgol PAP2 Diwrnod Ymchwil yn yr Ysgol (Ysgol PAP2)	
25.01.24	Sesiwn 13: Dadansoddi data Cyflwyno a dadansoddi data	11-1

	Sesiwn 14: Adborth o'r Diwrnod Ymchwil • Adolygu a thrafod canfyddiadau diwrnod ymchwil • Gwneud argymhellion priodol ar gyfer trawsnewid ymarfer personol yn seiliedig ar werthusiad beirniadol o ganfyddiadau a phroses yr ymchwil	2-4
08.02.24.	Sesiwn 15: Gweithdy Cefnogi Aseiniad – C&A	2-4

6. Tasgau ac arweiniad asesu

CÔD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECAD5010C	Cylch 2: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw'n i'n addysgu?	Aseiniad ysgrifenedig (Cyfwerth â 4000 o eiriau) Cyflwyno: 19/02/2024 (erbyn 23:59)

Am **wybodaeth pellach parthed asesu a chanllawiau** gweler **ffurflen Manyleb Asesu** (ar Moodle).

Hanfodol

Arthur, J. (Ed.). (2012) *Research methods and methodologies in education*. London: Sage Publications Ltd.

Austin, R. (2016) *Researching Primary Education*. London: Sage publications Ltd.

Blackburn, C. (2018) *Researching with young and developmentally young children: Ethical considerations, dilemmas and compromises*. Yn *BERA Bites: Early Childhood*, Issue 1

<https://www.bera.ac.uk/blog/researching-with-young-and-developmentally-young-children-ethical-considerations-dilemmas-and-compromises>

British Educational Research Association (BERA, 2018) *Ethical Guidelines for Educational Research* <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2013) *Research Methods in Education*. London: Sage Publications Ltd. (Copi ar gael ar Moodle) rme-edu-helpline-blogspot-com

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education*. 7th edn. London: Routledge. Ar gael ar:

https://librarysearch.uwtsd.ac.uk/discovery/fulldisplay?docid=alma99100375897802421&context=L&vid=44WHELF_UWTSD:44WHELF_UWTSD_VU1&lang=en&search_scope=MyInstandCI&adaptor=Local%20Search%20Engine&isFrbr=true&tab=Everything&query=any,contains,research%20methods%20education%20cohen&sortby=date_d&facet=frbrgroup_id,include,9074222681787976405&offset=0

Danby, S.J., Ewing, L., & Thorpe, K.J. (2011) The novice researcher: interviewing young children. *Qualitative Enquiry*, 17(1), pp. 74-84.

https://www.academia.edu/17971764/The_Novice_Researcher_Interviewing_Young_Children

Denscombe, M. (2021) *The Good Research Guide: research for small scale social research projects*. 7th edition. Mainhead: Open University Press. (Copi o 2014 -5TH edition ar gael ar Moodle).

Llywodraeth Cymru (2015) Gwneud defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://hwb.gov.wales/api/storage/92ad9966-0370-41f2-a19c-58e12f51f1cc/guide-to-undertaking-professional-enquiry-cy.pdf>

Punch, K.F. (2014) *Introduction to Social Research: Quantitative and Qualitative Approaches*. London: Sage Publications Ltd.

Thomas, G. (2023) *How to do your Research Project*. 4th edition. London: Sage publications Ltd.

Argymhellir

Alderson, P. and Morrow, V. (2011) *The Ethics of Research with Children and Young People: A Practical Handbook*. London: Sage Publications Ltd.

Baxter, P., and Jack, S. (2008) Qualitative case study methodology: Study design and implementation for novice researchers. *The qualitative report*, 13(4), 544-559.

https://www.researchgate.net/publication/228621600_Qualitative_Case_Study_Methodology_Study_Design_and_Implementation_for_Novice_Researchers/link/09e41510be4872eff6000000/download

Bell, J. and Waters, S. (2018) *Doing your Research Project: A Guide for First-time Researchers*. 7th edition. London: Open University Press.

Braun, V. and Clarke, V. (2022) *Thematic Analysis: A Practical Guide*. London: Sage Publications Ltd.

Denzin, N. K. and Lincoln, Y. S. (eds), (2013) *The Sage Handbook of Qualitative Research*. London: Sage Publications Ltd.

Holliday, A. (2007) *Doing and Writing Qualitative Research*. London: Sage Publications Ltd.

Israel, M. (2015) *Research Ethics and Integrity for Social Scientists: Beyond Regulatory Compliance*. London: Sage Publications Ltd.

Miller, T. (ed), (2012) *Ethics in Qualitative Research*. London: Sage Publications Ltd. (electronic)

Sharp, J. (2012) *Success with your Education Research Project*. 2nd edition. London: Sage Publications Ltd.

Thody, A. (2006) *Writing and Presenting Research*. London: Sage Publications Ltd.

Wilkinson, D. (2000) *The Researcher's Toolkit: the complete guide to practitioner research*. London: Routledge.

Cofnodolion (Journals)

All education research journals are relevant for this module, e.g.

British Education Research Journal

Education 3-13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education

Gwefannau

BERA <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

EBSCO host Education Data base <https://whelf-uwtsd.leganto.exlibrisgroup.com/leganto/readinglist/lists/6272595710002421>

EWC <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/practitioner-research/research-methods.cfm>

National Foundation for Educational Research (NFER)

<http://www.nfer.ac.uk/schools/developing-young-researchers/how-to-choose-your-research-methods.cfm>

HWB – Dysgu Proffesiynol: Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu <https://hwb.gov.wales/professional-development/schools-as-learning-organisations/>

Tasgau Cyfeiriedig

1	Darllen Clark, A. (2005) 'Ways of seeing: using the Mosaic approach to listen to young children's perspectives', in Clark, A., Kjørholt and Moss, P. (eds.) <i>Beyond Listening</i> . Children's perspectives on early childhood services. Bristol: Policy Press, pp. 29–49. (Session 3) https://learningaway.org.uk/wp-content/uploads/RL56-Extract-the-Mosaic-Approach-EARLY-YEARS.pdf
2	Darllen: Danby, S.J., Ewing, L., & Thorpe, K.J. (2011) The novice researcher: interviewing young children. <i>Qualitative Enquiry</i> , 17(1), pp. 74-84. https://www.academia.edu/17971764/The_Novice_Researcher_Interviewing_Young_Children

4	Darllen: Blackburn (2018) <i>Researching with young and developmentally young children: Ethical considerations, dilemmas and compromises</i> . Yn <i>BERA Bites: Early Childhood</i> , Issue 1 https://www.bera.ac.uk/publication/issue-1-early-childhood
5	Archwilio'r ddogfen: Llywodraeth Cymru (2010) <i>Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru. https://hwb.gov.wales/api/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf
7	Archwilio a darllen: 'How to..Guides' NFER – yn enwedig 'Write up your research' guide. https://www.nfer.ac.uk/media/2120/resm00.pdf